

**Ymateb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
i Ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar
'Ffur a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n weithredol yng Nghymru'**

1. Rwyf yn falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar 'Ffur a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Weithredol yng Nghymru'.
2. Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwyf yn ymchwilio i gwynion a wneir gan y cyhoedd sy'n teimlo eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder trwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth ar ran corff cyhoeddus o fewn fy awdurdodaeth, sy'n cynnwys fwy neu lai'r holl sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru, ac mae'r rhain yn cynnwys:
 - llywodraeth leol (cynghorau sir a chymuned);
 - y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion);
 - landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai);
 - a Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrrff nodedig.

Gallaf hefyd ystyried cwynion am ofal cymdeithasol sy'n cael ei drefnu neu ei ariannu'n breifat a gwasanaethau gofal lliniarol. Rwyf yn ystyried ac yn ymchwilio i gwynion bod aelodau cyrrff llywodraeth leol wedi torri Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau eu hawdurdod. Rwyf yn annibynnol ar holl gyrrff y llywodraeth.

3. Gallaf ymateb i ymgynghoriad ar sail tystiolaeth o waith achos OGCC yn unig; felly yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol yr ymgynghoriad byddaf yn gwneud sylwadau cyffredinol ar brofiad OGCC a all fod yn fuddiol i Gomisiwn y Gyfraith wrth ystyried hygyrchedd y gyfraith sy'n weithredol yng Nghymru.

Oherwydd natur ein gwaith, mae hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru o'r pwys mwyaf i OGCC gan fod angen i ni sicrhau bod cyrrff o fewn ein hawdurdodaeth yn gweithredu'r gyfraith yn gywir. Mae mynediad hwylus at y gyfraith yn hanfodol i wneud hyn yn effeithiol.

Mae angen i'r sefyllfa yng Nghymru fod yn eglur o'r cychwyn. Ar hyn o bryd mae'n anodd tu hwnt i gael mynediad at y gyfraith ac i ganfod y gyfraith sy'n weithredol yng Nghymru. I'w gwneud yn haws i chwilio am ddeddfau byddai'n ddefnyddiol pe ceid mynediad at grynhoad o gyfreithiau Cymru h.y. holl ddarpariaethau llywodraeth leol mewn un lle.

Dylid sicrhau bod cronfeydd data'n cael eu diweddarau a'u bod yn gwerthfawrogi'r gwahaniaethau rhwng cyfraith Cymru a Lloegr. Dylai'r holl gronfeydd data a ddefnyddir gael eu rheoli a dylent fod yn gywir, yn ogystal â chael adnoddau priodol fel y gallwn fod yn hyderus bod yr hyn rydym yn ei ganfod yn gywir. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe byddai llyfrau gosod yn cael eu cynhyrchu'n Gymraeg a Saesneg neu o leiaf yn nodi'r amrywiadau yng nghyfreithiau Cymru a Lloegr.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Hydref 2015
